



CANLLAWIAU CYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU

Canllaw ar sut i gyfrifo cyllideb maethynnau ar gyfer datblygiad gan ddefnyddio Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Cymru

Adroddiad ar gyfer: Llywodraeth Cymru

Cyf. V01_01_E_draft

Cyf. Ricardo ED16771103

Cyhoeddiad: 1.2

23/07/2024

Cwsmer:
Llywodraeth Cymru

Cyfeirnod y cwsmer:
English_Draft_v1.2

Cyswllt:
Dr Jenny Mant
Gemini Building,
Fermi Avenue,
Harwell, Didcot,
OX11 0QR, y Deyrnas
Unedig

Ff: +44 (0) 1235 753 328
E:Jenny.Mant@Ricardo.com

Cyfrinachedd, hawlfraint ac atgynhyrchu:

Mae'r adroddiad hwn yn Hawlfraint Llywodraeth Cymru ac fe'i paratowyd gan Ricardo, un o enwau masnachu Ricardo-AEA Ltd dan gontract gydag Arup. Ni cheir atgynhyrchu cynnwys yr adroddiad hwn, yn gyfan gwbl nac yn rhannol, na'i drosglwyddo i unrhyw sefydliad nac unigolyn heb ganiatâd ysgrifenedig penodol o flaen llaw Hawlfraint Llywodraeth Cymru. Nid yw Ricardo yn derbyn unrhyw atebolrwydd o gwbl i unrhyw drydydd parti am unrhyw golled neu niwed sy'n deillio o unrhyw ddehongliad neu ddefnydd o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, na dibyniaeth ar unrhyw safbwyntiau a fynegir ynddo, heblaw am yr atebolrwydd a gytunir yn y contract dywededig.

Awdur:
Declan Sealy
Joe Salkeld

Cymeradwywyd gan:
Jenny Mant

Llofnod

J. Mant

Cyfeirnod Ricardo:
ED18036

Dyddiad:
23/07/2024

Mae Ricardo wedi'i ardystio i ISO9001, ISO14001, ISO27001 ac ISO45001.

Cyfeirir at Ricardo, ei gysylltiadau a'i is-gwmnïau a'u swyddogion, cyflogeion neu asiantiaid priodol, yn unigol ac ar y cyd, fel 'Grŵp Ricardo'. Nid yw Grŵp Ricardo yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb ac ni fydd yn atebol i unrhyw unigolyn am unrhyw golled, niwed neu draul a achosir gan ddibynnu ar y wybodaeth neu'r cyngor yn y ddogfen hon na sut bynnag y'i darperir, oni bai bod yr unigolyn hwnnw wedi llofnodi contract gydag endid perthnasol Grŵp Ricardo i ddarparu'r wybodaeth hon neu'r cyngor hwn ac, yn yr achos hwnnw, bydd unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd yn unol â'r telerau a'r amodau a amlinellir yn y contract hwnnw yn unig.

CYNNWYS

1	Y GOFYNIAD AM NIWTRALIAETH MAETHYNNAU	5
1.1	YR ACHOS ISELDIROL	5
1.2	BETH MAE'R ACHOS ISELDIROL YN EI OLYGU I NIWTRALIAETH MAETHYNNAU?	5
1.3	RÔL Y DDOGFEN HON	6
1.4	SAFLEOEDD GWARCHODEDIG Y MAE'R GYFRIFIANNELL YN YMDRIN Â NHW	6
1.5	BETH YW DIBEN Y CANLLAWIAU HYN?	7
1.6	AR GYFER PWY Y MAE'R CANLLAWIAU?	7
2	TROSOLWG O'R GYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU	9
3	CASGLU DATA A PHARATOI	11
3.1	CAM 2: CYFARWYDDIADAU AR GYFER DOD O HYD I'R MATH O DDRAENIO PRIDD SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R PRIF FATH O BRIDD O FEWN Y SAFLE DATBLYGU	11
3.2	CAMAU 2 A 3: CYFARWYDDIADAU AR GYFER DOD O HYD I'R GLAWIAD BLYNYDDOL CYFARTALOG Y BYDD Y SAFLE DATBLYGU'N EI DDERBYN	11
3.3	CAMAU 2 A 3: MATHAU O ORCHUDD TIR A DDEFNYDDIR YN YR OFFERYN	12
4	DEFNYDDIO'R GYFRIFIANNELL	14
4.1	AWGRYMIADAU CYFFREDINOL	14
4.2	MEWNBWN PENODOL I GAM	14
4.2.1	Cam 1: cyfrifo'r llwyth maethynnau ychwanegol o ddŵr gwastraff	14
4.2.2	Cam 2: cyfrifo'r llwyth maethynnau o orchuddion tir sydd eisoes yn bodoli	17
4.2.3	Cam 3: cyfrifo'r llwyth maethynnau o orchuddion tir newydd	18
4.2.4	Cam 3S: cyfrifo'r llwyth maethynnau a dynnir ymaith trwy SuDS	18
4.2.5	Cam 4: y gyllideb maethynnau	19
4.3	SENARIOS ENGHREIFFTIOL	20
5	CYFEIRIADAU	24

Atodiadau

ATODIAD 1	CYFARWYDDIADAU AR SUT I AMLYGU P'UN A FYDD Y DŴR GWASTRAFF A GYNHYRCHIR GAN Y DATBLYGIAD YN EFFEITHIO AR SAFLE GWARCHODEDIG OHERWYDD BOD Y DŴR GWASTRAFF HWN YN CAEL EI OLLWNG O FEWN DALGYLCH HYDROLEGOL YR EFFEITHIR ARNO	26
ATODIAD 2	TABL GWEITHFEYDD TRIN DŴR GWASTRAFF YN ÔL DALGYLCH	42

RHESTR TERMAU

Talfyriad	Diffiniad
AA	Asesiad Priodol
ACA	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
CJEU	Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
LSE	Effeithiau Arwyddocaol Tebygol
N	Nitrogen
P	Ffosforws
PTP	Cyfleusterau Parod i Drin Carthion
ST	Tanc Septig
STW	Gwaith Trin Carthion
SuDS	Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy
TN	Cyfanswm Nitrogen
TP	Cyfanswm Ffosforws
WFD	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
WwTW	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff

1 Y GOFYNIAD AM NIWTRALIAETH MAETHYNNAU

1.1 YR ACHOS ISELDIROL

Dylid cymhwyso dyfarniad 2018 Llys Cyfiawnder Ewrop, y cyfeirir ato fel 'Yr Achos Iseldirol'^[1], i gynlluniau neu brosiectau a allai achosi i faethynnau ychwanegol fynd i mewn i ddalgylchoedd safleoedd Ewropeaidd Dynodedig (y cyfeirir atynt o hyn allan fel safleoedd Gwarchodedig) nad ydynt yn bodloni eu hamcanion cadwraeth oherwydd lefelau maethynnau sydd eisoes yn uchel. Pwynt allweddol a wnaed gan y Llys oedd pan fydd cyflwr cynefin Gwarchodedig yn anffafriol, bydd y posibilrwydd o awdurdodi gweithgareddau ychwanegol a fydd yn llwytho mwy o faethynnau yn 'gyfyngedig o reidrwydd'.

Datganodd y Llys yn glir hefyd na chaiff asesiad priodol ystyried bodolaeth mesurau cadwraeth os nad yw buddion disgwylidig y mesurau hynny'n sicr (h.y. y tu hwnt i bob amheuaeth wyddonol resymol) ar adeg yr asesiad hwnnw. Yn yr un modd, ni ddylid dibynnu ar fesurau ar gyfer rheoli cadwraeth, neu osgoi dirywio, i awdurdodi cynllun neu brosiect sydd â goblygiadau i'r safle dan sylw cyn iddynt gael eu gweithredu mewn gwirionedd.

1.2 BETH MAE'R ACHOS ISELDIROL YN EI OLYGU I NIWTRALIAETH MAETHYNNAU?

Nid yw llawer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd yng Nghymru yn bodloni eu Hamcanion Cadwraeth ar gyfer ansawdd dŵr o ganlyniad i lefelau uchel o faethynnau. Mynegir yr Amcanion Cadwraeth ar gyfer ansawdd dŵr fel targedau rhifiadol ar gyfer ystod o briodoleddau, gan gynnwys ffosforws (P) a nitrogen (N). Gall cynnydd mewn maethynnau sy'n gollwng i ACA afonydd o gynlluniau neu brosiectau newydd arwain at dorri targedau ansawdd dŵr neu ddirywiad pellach i ansawdd dŵr afonydd lle mae'r targedau hynny eisoes wedi cael eu torri. Mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd y mae arnynt angen caniatâd cynllunio a allai effeithio ar ACA gael Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Cam cyntaf y broses hon yw Prawf Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (TLSE). Defnyddir y broses sgrinio hon i bennu p'un a allai cynnig danseilio Amcanion Cadwraeth ACA ac achosi Effeithiau Arwyddocaol Tebygol. Yng nghyd-destun gorfaethu, mae hyn yn golygu p'un a fydd cynnig yn arwain at gynhyrchu ffosforws ychwanegol ac a oes llwybr i'r ffosforws fynd i mewn i'r amgylchedd ACA afonydd.

Pan ganfyddir effaith arwyddocaol debygol ar safle gwarchodedig o ganlyniad i faethynnau ychwanegol, mae'n rhaid cynnal Asesiad Priodol (AA) i bennu p'un a fydd y cynnig yn arwain at effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle ACA. Dyma'r adeg pryd y gellir ystyried mesurau lliniaru y bwriedir iddynt osgoi neu leihau effeithiau yn rhan o'r asesiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i gynllun neu brosiect fod yn niwtral o ran maethynnau, sy'n golygu bod rhaid i gynnydd posibl mewn maethynnau a ychwanegir at ACA gael ei gydbwyso â mesurau lleihau maethynnau er mwyn sicrhau nad oes cynnydd net yn y maethynnau sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd ACA afonydd.

Bydd angen niwtraliaeth maethynnau pan allai cynllun neu brosiect gynyddu faint o ffosforws sydd mewn ACA afonydd ac mae targedau ansawdd dŵr ar gyfer ffosforws eisoes yn cael eu torri neu na chyrhaeddir y targedau i lawr yr afon. Mewn dalgylchoedd ACA afonydd sy'n bodloni targedau ffosforws, mae'n bosibl na fydd angen niwtraliaeth maethynnau ar yr amod nad yw datblygiadau newydd yn achosi i ACA dorri ei thargedau ansawdd dŵr neu'n atal cyflawni'r targedau yn y dyfodol.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd angen i ddatblygiadau sy'n cynnwys cysylltiadau newydd â charthffos gyhoeddus ddangos niwtraliaeth maethynnau. Mewn achosion o'r fath, bydd gollyngiadau elifion o'r gwaith trin dŵr gwastraff cysylltiedig wedi cael eu hasesu o ran bodloni targedau ansawdd dŵr lleol a byddant yn cael eu rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) trwy'r Drwydded

^[1] Achosion Cysylltiedig C-293/17 ac C-294/17 *Coöperatie Mobilisation for the Environment UA ac Eraill v College van gedeputeerde staten van Limburg ac Arall* (yr achosion Nitrogen Iseldirol)

Amgylcheddol Gwaith Trin Dŵr Gwastraff. Fodd bynnag, mae'n debygol iawn y bydd CNC yn datgan nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â hyblygrwydd i ganiatáu datblygiad heb unrhyw risgiau LSE i'r ACA.

Y cam cyntaf mewn AA HRA yw cymhwyso niwtraliaeth maethynnau er mwyn deall p'un a fydd datblygiad yn arwain at ychwanegu maethynnau at safle gwarchodedig a faint ohonynt a ychwanegir. Bydd hyn yn gofyn am gyfrifo faint o faethynnau y bydd datblygiad newydd yn eu creu, a adwaenir fel arall fel cyllideb maethynnau.

Os bydd cyllideb maethynnau'n dangos y bydd datblygiad newydd yn ychwanegu mwy o faethynnau at unrhyw un o'r safleoedd, ni fydd modd dod i gasgliad na fydd effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle yn unigol nac ar y cyd. Mae'n rhaid i'r llwyth ffosfforws blynyddol a gyfrifir yn y gyllideb maethynnau derfynol gael ei liniaru i gyflawni niwtraliaeth maethynnau. Pan ellir dangos niwtraliaeth maethynnau, gellir dod i gasgliad o ddim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle.

1.3 RÔL Y DDOGFEN HON

Mae'r arweiniad yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau a grëwyd ar gyfer Cymru. Mae'r gyfrifiannell hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Fe'i dyluniwyd i alluogi datblygwyr yng Nghymru i gyfrifo cyllidebau maethynnau ar gyfer datblygiadau. Mae adrannau canlynol y ddogfen hon yn rhoi cyfarwyddiadau gam wrth gam ar sut i gwblhau cyllideb maethynnau gan ddefnyddio'r gyfrifiannell.

Sylwer: Nid yw'r ddogfen hon yn adolygiad o'r dystiolaeth o'r data sy'n sail i'r cyfrifiadau yn y cyfrifiannellau cyllideb maethynnau. Cwblhawyd adolygiad o dystiolaeth a cham casglu data helaeth i amlygu'r dystiolaeth orau a oedd ar gael i'w defnyddio yn y cyfrifiannellau hyn. Nid oedd yr adolygiad o dystiolaeth wedi'i gyhoeddi ar yr adeg ysgrifennu.

1.4 SAFLEOEDD GWARCHODEDIG Y MAE'R GYFRIFIANNELL YN YMDRIN Â NHW

Mae naw ACA â nodweddion afonol yng Nghymru:

- ACA Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd
- Afon Teifi
- Afon Tywi
- Afonydd Cleddau
- Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid
- Afon Wysg
- Afon Gwy
- Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn
- Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion (Afon Glaslyn)

Dangosodd adroddiad a gyhoeddwyd gan CNC yn 2021 nad oedd dros 60% o'r cyrff dŵr a aseswyd mewn dalgylchoedd ACA afonydd yn bodloni'r targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosfforws¹. Fel y cyfryw, os yw datblygiad o fewn un o'r dalgylchoedd hyn, bydd angen cwblhau cyllideb ffosfforws er mwyn ystyried a fydd y datblygwr yn achosi effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle o ganlyniad i lwytho mwy o faethynnau i'r ACA afonydd. Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol (ACLI) ystyried yr effeithiau ar ACA afonydd wrth werthuso cynllun neu gynnig fel yr awdurdod cymwys.

Mae'r afonydd hyn yn cynnal ystod eang o gynefinoedd a rhywogaethau rhyngddynt, gan gynnwys:

- Digonedd o grafang-y-frân; gellir gweld rhywogaethau â blodau gwynion fel matiau arnofiol yn ystod hanner cyntaf yr haf, yn nodweddiadol;

¹ Gweler: Asesiad Cydymffurfiaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws, sydd ar gael yma: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/compliance-assessment-of-welsh-river-sacs-against-phosphorus-targets/?lang=cy>

- Rhywogaethau pysgod fel Llysywod Pendoll y Nant, Llysywod Pendoll y Môr, Llysywod Pendoll yr Afon, Bawd y Melinydd, Eogiaid, Gwangod, a Herlod;
- Cimychiaid afon bodiau gwynion;
- Misglod perlog yr afon;
- Dyfrgwn; a
- Llyriad-y-dŵr arnofiol.

Gall lefelau uwch o ffosforws sy'n mynd i mewn i amgylcheddau dyfrol trwy ddŵr wyneb a dŵr daear achosi bygythiad difrifol i'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sensitif ym mhob ACA. Mae'r lefelau uwch o faethynnau'n gallu achosi ewtroffigedd, gan arwain at ordyfiant algâu sy'n amharu ar weithrediad arferol yr ecosystem ac achosi newidiadau mawr i'r gymuned ddyfrol. Gall y gordyfiant algâu hwn leihau'r ocsigen yn y dŵr sydd, yn ei dro, yn gallu arwain at farwolaeth llawer o organebau dyfrol, gan gynnwys infertebratau a physgod.

Gelwir y cynefinoedd a'r rhywogaethau yn yr afonydd hyn sy'n arwain at eu dynodiadau unigol fel ACA yn 'nodweddion cymwys'. Ni fydd yr holl nodweddion cymwys hyn yn sensitif i newidiadau i faethynnau yn yr afonydd hyn. Wrth gwblhau HRA sy'n ymwneud â niwtraliaeth maethynnau, mae'n rhaid i'r ACLI sicrhau bod y nodweddion cymwys cywir wedi cael eu hamlygu a hepgor unrhyw nodweddion cymwys nad ydynt yn sensitif i faethynnau. Gofynnir i ddatblygwyr gyflwyno gwybodaeth i gefnogi'r broses hon.

Mae gwybodaeth fanylach am nodweddion cymwys yr ACA ar gael trwy'r dolenni canlynol:

- [ACA Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd](#)
- [Afon Teifi](#)
- [Afon Tywi](#)
- [Afonydd Cleddau](#)
- [Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid](#)
- [Afon Wysg](#)
- [Afon Gwy](#)
- [Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn](#)
- [Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion](#)

1.5 BETH YW DIBEN Y CANLLAWIAU HYN?

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn cyd-fynd â'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau a grëwyd ar gyfer Cymru. Defnyddir y gyfrifiannell i gyfrifo'r newid mewn mewnbynnau nitrogen a ffosforws, o fewn unrhyw un o'r naw dalgylch ACA a fanylir yn Adran 1.4, o ganlyniad i unrhyw ddatblygiad seilwaith preswyl, masnachol, hamdden, twristiaeth neu wasanaeth cyhoeddus newydd. Gellir defnyddio'r gyfrifiannell i lywio AA sy'n ceisio cymhwyso niwtraliaeth maethynnau i ddangos p'un a fydd angen mesurau lliniaru maethynnau ar ddatblygiad newydd ac, os felly, faint o lwyth ffosforws y bydd angen ei wrthbwysu trwy fesurau lliniaru i alluogi casgliad o ddim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle, yn unigol neu ar y cyd.

Mae'r ddogfen ganllaw yn cynnwys y canlynol:

- Cyfarwyddiadau gam wrth gam ar sut i gasglu'r data penodol y mae'n ofynnol ei fewnbynnu i'r gyfrifiannell.
- Cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r gyfrifiannell.

1.6 AR GYFER PWY Y MAE'R CANLLAWIAU?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unrhyw un y mae angen iddo gwblhau cyfrifiad cyllideb maethynnau i gefnogi AA o ddatblygiad seilwaith preswyl, masnachol, hamdden, twristiaeth neu wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfrifiannell wedi'i bwriadu'n bennaf ar gyfer datblygwyr y mae angen iddynt gwblhau cyfrifiad cyllideb maethynnau i gefnogi cais cynllunio ac unrhyw ACLI y mae angen iddo ddeall y gofynion lliniaru ar gyfer datblygiad yn y dyfodol neu asesu ceisiadau cynllunio. Gellid ei

defnyddio hefyd gan gymunedau neu grwpiau amgylcheddol sy'n dymuno deall effeithiau datblygiad lleol ar y mewnbynnau maethynnau i'r safleoedd sy'n destun pryder.

Y ffactorau allweddol i'w hystyried wrth asesu p'un a oes angen ymagwedd niwtraliaeth maethynnau ar gyfer datblygiad newydd yw:

1. P'un a yw'r datblygiad o fewn dalgylch sy'n draenio i unrhyw un o'r naw ACA â nodweddion afonol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel safleoedd Gwarchodedig).
2. P'un a yw'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (WwTW) sy'n gwasanaethu'r datblygiad yn gollwng i safle Gwarchodedig yr effeithir arno.
3. P'un a fydd y datblygiad yn arwain at fwy o 'arosiadau dros nos' (gweler y nodyn isod).
4. P'un a fydd y datblygiad yn cynyddu faint o gwsmeriaid/defnyddwyr neu gyflogeion sy'n dod i ddalgylch yr ACA afonydd o'r tu allan i'r dalgylch i weithio (yn y cyd-destun hwn, diffinnir defnyddiwr fel rhywun sy'n defnyddio gwasanaeth neu gyfleusterau sy'n arwain at faich maethynnau ychwanegol – fel cynhyrchu dŵr gwastraff).

Os atebir yn gadarnhaol i gyfuniad o naill ai; 1, 2 a 3 neu, 2 a 4 uchod, bydd angen cwblhau cyfrifiad cyllideb maethynnau er mwyn asesu p'un a fydd datblygiad yn cynyddu'r llwyth maethynnau i safle Gwarchodedig, fel yr amlygir yn Adran 1.4.

Manylir ar ymagwedd at bennu p'un a yw'r datblygiad o fewn dalgylch sy'n draenio i safle Gwarchodedig yn Atodiad 1. Yn ogystal, gellir gweld rhestr o weithfeydd trin dŵr gwastraff (WwTW) yn Atodiad 2 y ddogfen hon.

Sylwer: Diffinnir mwy o arosiadau dros nos fel unrhyw ddatblygiad a fydd yn cynyddu nifer y bobl a fydd yn aros dros nos o gymharu â'r defnydd tir blaenorol ar yr ardal ddatblygu. Er bod datblygiadau masnachol bach yn llai tebygol o gynyddu nifer y cyflogeion sy'n teithio i'r dalgylch, mae'n bosibl y bydd angen cymorth ymgynghoriaeth broffesiynol i amcangyfrif nifer y cyflogeion sy'n dod o'r tu allan i'r dalgylch.

2 TROSOLWG O'R GYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU

Sylwer:

Datblygwyd y gyfrifiannell i'w darllen yn y **Gymraeg** a'r **Saesneg**.

Mae'r gyfrifiannell yn cynnwys cyllidebau ar gyfer **P ac N**.

Mae angen niwtraliaeth maethynnau ar gyfer P yn unig.

Mae'r gyfrifiannell yn cynhyrchu canlyniadau ar gyfer llwyth N i baratoi'r offeryn at y dyfodol rhag ofn y bydd unrhyw newidiadau rheoleiddiol yn ofynnol neu heriau.


Mae'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau wedi'i chreu ym Microsoft Excel ac mae'n cynnwys chwe dalen waith:

- **Cyfarwyddiadau** – tudalen glawr yr offeryn sy'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut i'w ddefnyddio.
- **Cam 1** – dalen waith sy'n cyfrifo'r llwyth maethynnau blynyddol o'r dŵr gwastraff ychwanegol yn seiliedig ar wybodaeth sy'n benodol i'r datblygiad a fewnbynwyd gennych chi. Mae'r cam hwn yn ofynnol os yw datblygiad yn cysylltu â WwTW sy'n draenio i safle Gwarchodedig.
- **Cam 2** – dalen waith sy'n cyfrifo'r llwyth maethynnau blynyddol o'r defnydd tir presennol, cyn y datblygiad yn seiliedig ar wybodaeth sy'n benodol i'r datblygiad a fewnbynwyd gennych chi. Mae'r cam hwn yn ofynnol os yw'r dŵr wyneb o ddatblygiad yn draenio i safle Gwarchodedig.
- **Cam 3** – dalen waith sy'n cyfrifo'r llwyth maethynnau blynyddol o'r defnydd tir newydd, ar ôl y datblygiad yn seiliedig ar wybodaeth sy'n benodol i'r datblygiad a fewnbynwyd gennych chi. Mae'r cam hwn yn ofynnol os yw'r dŵr wyneb o ddatblygiad yn draenio i safle Gwarchodedig.
- **Cam 3S** – dalen waith sy'n cyfrifo'r llwyth maethynnau blynyddol a dynnir ymaith o Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS). Mae'n rhaid i'r adran hon gael ei chwblhau dim ond os yw SuDS yn cael eu gweithredu yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3) ac yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol.
- **Cam 4** – dalen waith sy'n cyfrifo'n awtomatig y llwyth maethynnau blynyddol y mae angen ei liniaru er mwyn profi niwtraliaeth maethynnau yn seiliedig ar yr allbynnau o Gam 1 – Cam 3S.

Mae'r gyfrifiannell yn defnyddio cyfres o dablau cyfeirio i ddod o hyd i werthoedd sy'n berthnasol i'ch mewnbynnau. Mae'r tablau cyfeirio mewn dalen waith guddiedig. Mae'r data a ddefnyddir yn y tablau cyfeirio wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Cwblhawyd adolygiad o dystiolaeth a cham casglu data helaeth i bennu'r wybodaeth hon.

I gyfrifo'r llwyth maethynnau i safle Gwarchodedig, bydd angen i chi lywio'r offeryn a mewnbynnu gwybodaeth allweddol i'r celloedd priodol ar bob cam. Mae'r **ddalen waith cyfarwyddiadau** yn esbonio pa gelloedd y mae angen i ddefnyddwyr fewnbynnu iddynt a sut i ddod o hyd i'r wybodaeth hon. Gellir gweld camau allweddol y cyfrifiad yn y diagramau yn Ffigur 1 a Ffigur 2. Dangosir y mewnbynnau allweddol ar bob cam o'r cyfrifiadau cyllideb maethynnau yn Ffigur 3.


Ffigur 1 Diagram sy'n dangos camau allweddol y gyfrifiannell cyllideb maethynnau



Ffigur 2 Diagram sy'n dangos yr hafaliad cyffredinol a ddefnyddir i gyfrifo'r llwyth maethynnau i safle Gwarchodedig



Ffigur 3 Diagram sy'n dangos mewnbynnau sy'n ofynnol i gyfrifo'r gyllideb maethynnau ar gyfer datblygiad preswyl



3 CASGLU DATA A PHARATOI

Mae'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau yn gofyn am gyfres o fewnbynau, fel y dangosir yn Ffigur 3.

Nid yw'r adran hon yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i gasglu gwybodaeth benodol am ddatblygiad, fel faint o eiddo sy'n cael eu hadeiladu, arwynebedd y datblygiad, y gorchudd tir presennol ac ati, oherwydd dylai'r datblygwr wybod hyn ac fe ddylai'r manylion fod yn y cais cynllunio. Bydd angen i'r wybodaeth hon gael ei hamlygu cyn cwblhau'r gyfrifiannell.

Mae'r is-adrannau isod yn rhoi arweiniad ar sut i amlygu nodweddion ffisegol penodol y mae'n ofynnol eu mewnbynnu i gwblhau pob cam o'r cyfrifiadau cyllideb maethynnau. Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gael o ffynonellau data y gellir cael atynt am ddim². Mae adran 3.1 yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i amlygu'r math o ddraenio pridd ar gyfer safle. Mae adran 3.2 yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i amlygu faint o lawiad a dderbynnir gan safle. Mae adran 3.3 yn manylu ar ddisgrifiadau'r mathau o orchudd tir a ddefnyddir yn y gyfrifiannell i helpu i ddosbarthu'r math cywir o orchudd tir. Mae mwyafrif y mewnbynnau sy'n ofynnol ar gyfer ffactorau sy'n benodol i leoliad safle datblygu neu'r dalgylch hydrolegol.

3.1 CAM 2: CYFARWYDDIADAU AR GYFER DOD O HYD I'R MATH O DDRAENIO PRIDD SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R PRIF FATH O BRIDD O FEWN Y SAFLE DATBLYGU

- Dilynwch y ddolen hon: <http://www.landis.org.uk/soilscapes/#>
- Dewch o hyd i leoliad eich safle datblygu ar y map trwy ddefnyddio'r bar chwilio ar ochr dde'r map yn y tab 'Chwilio'. Dylai chwilio am leoliad gynhyrchu ffenestr naid lle y gallwch weld y wybodaeth am bridd trwy glicio ar 'Gweld gwybodaeth am bridd'. Os nad yw hyn yn opsiwn, cliciwch ar y math o bridd perthnasol ac yna cliciwch ar y tab 'Gwybodaeth am bridd' ar ochr dde'r map, o dan y tab 'Chwilio'.
- Gellir gweld y gwerth 'Math o ddraenio pridd' yn 'Gwybodaeth am bridd' o dan y teitl 'Draenio:'
- Gwnewch nodyn o'r math o bridd a dewiswch y math o ddraenio pridd sy'n berthnasol o'r gwymplen yn y gell 'Math o ddraenio pridd' pan fyddwch yn dod i'r rhan hon o'r offeryn cyfrifo. Os yw'ch safle'n gorchuddio sawl math o bridd, dewiswch y mwyafrif.

3.2 CAMAU 2 A 3: CYFARWYDDIADAU AR GYFER DOD O HYD I'R GLAWIAD BLYNYDDOL CYFARTALOG Y BYDD Y SAFLE DATBLYGU'N EI DDERBYN

- Dilynwch y ddolen hon: <https://nrfa.ceh.ac.uk/data/search>
- Bydd y ddolen hon yn mynd â chi i dudalen chwilio am ddata'r Archif Llif Afonydd Genedlaethol.
- Dewiswch y medrydd llif priodol (pwynt monitro) a llywiwch i'r tab "Gwybodaeth am y Dalgylch".
- Cliciwch ar y gwymplen nesaf at y teitl 'Dewis math o ddata gofodol i'w weld:' ar ochr chwith y map a dewiswch 'Glawiad'.
- Dewiswch y tab Allwedd.
- Chwyddwch i mewn ar y map i ddod o hyd i leoliad y datblygiad a chanfod yr ystod glawiad gyfatebol o'r Allwedd. Sylwch na allwch chwilio'r map hwn gan ddefnyddio gwybodaeth am leoliad a bydd angen i chi 'syrrffio' o amgylch y map i ddod o hyd i leoliad eich safle datblygu. Felly, fe allai fod yn haws dewis medrydd llif ar gyfer y dalgylch ACA y mae gennych ddi-ddordeb ynddo.
- Gwnewch nodyn o'r band glawiad perthnasol ar gyfer eich safle a defnyddiwch ef i ddewis y band glawiad hwn o'r gwymplen yn y gell 'Glawiad blynyddol cyfartalog' pan fyddwch yn cyrraedd y rhan hon o'r offeryn cyfrifo.

² Yn gywir ar yr adeg ysgrifennu. Mae'r ffynonellau data hyn ar gael o ffynonellau ar y we sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth ar hyn o bryd, ond dylid nodi efallai na fydd y setiau data hyn ar gael os bydd cyllid yn cael ei dynnu'n ôl.

Sylwer: Bydd rhai o'r gwerthoedd a ddewiswch yn y camau a fanylir uchod yn cael eu defnyddio yn y cyfrifiadau Cam 3 hefyd. Fodd bynnag, dim ond yn y tabl cyntaf yng Ngham 2 y gyfrifiannell y bydd angen i chi fewnbynnu'r gwerthoedd, a bydd y rhai sy'n ofynnol ar gyfer Cam 3 yn cael eu hychwanegu'n awtomatig.

3.3 CAMAU 2 A 3: MATHAU O ORCHUDD TIR A DDEFNYDDIR YN YR OFFERYN

Nid yw'r ddogfen ganllaw hon yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i amlygu mathau o orchudd tir. Er mwyn helpu i drosi'r gorchudd tir ar eich safle datblygu i fathau o orchudd tir y gellir eu mewnbynnu i'r offeryn hwn, gweler Tabl 1³.

Tabl 1 Tabl sy'n manylu ar y mathau o orchudd tir sydd ar gael i'w defnyddio yn yr offeryn.

Mathau o ddefnydd tir a ddefnyddir yn yr offeryn cyfrifo	Disgrifiad
Grawnfwyd	Ardaloedd amaethyddol lle mae grawnfwyd, cnydau y gellir eu cyfuno a thir sy'n cael ei osod o'r neilltu yn cael eu ffermio.
Cyffredinol	Ardaloedd amaethyddol lle mae cnydau â'r (gan gynnwys llysiau a dyfir ar raddfa caeau) yn cael eu ffermio.
Garddwriaeth	Ardaloedd amaethyddol lle mae ffrwythau (gan gynnwys gwinllannoedd), stoc wydn mewn planhigfeydd, blodau a llysiau tŷ gwydr, llysiau ar raddfa gardd farchnad, bylbiau a blodau awyr agored, a madarch yn cael eu ffermio.
Ffermio moch dan do	Ardaloedd amaethyddol lle mae moch yn cael eu ffermio dan do.
Ffermio moch yn yr awyr agored	Ardaloedd amaethyddol lle mae moch yn cael eu ffermio yn yr awyr agored.
Dofednod	Ardaloedd amaethyddol lle mae dofednod yn cael eu ffermio.
Buchod godro	Ardaloedd amaethyddol lle mae buchod godro'n cael eu ffermio.
Pori ar Ardal Lai Ffatriol	Ardaloedd amaethyddol lle mae gwartheg, defaid a da byw eraill sy'n pori yn cael eu ffermio mewn lleoliadau lle mae cynhyrchu amaethyddol yn anodd. Dosberthir daliad yn Ardal Lai Ffatriol os yw 50 y cant neu fwy o'i arwynebedd cyfan wedi'i ddosbarthu'n Ardal Lai Ffatriol.
Pori tir isel	Ardaloedd amaethyddol lle mae gwartheg, defaid a da byw eraill sy'n pori yn cael eu ffermio. Dosberthir daliad yn ardal tir isel os yw llai na 50 y cant o'i arwynebedd cyfan yn yr Ardal Lai Ffatriol.
Cymysg	Ardaloedd amaethyddol lle nad yw'r un o'r categorïau uchod yn cael eu ffermio neu lle mae'n rhy anodd dewis un categori i ddisgrifio'r math o fferm. Nid yw ffermydd o'r math hwn yn cynnwys cnydau garddwriaethol na ffermio moch yn yr awyr agored.
Man gwyrdd	Mannau awyr agored naturiol a lled-naturiol a ddarperir ar gyfer defnydd hamdden lle na fydd gwrteithiau'n cael eu defnyddio a lle mae baw cŵn yn cael ei reoli, e.e. parciau lled-naturiol. Nid yw hyn yn cynnwys seilwaith gwyrdd o fewn yr amgylchedd trefol adeiledig, fel gerddi, na lleiniau glas, gan fod y rhain wedi'u cynnwys yn y categori tir trefol preswyl ar gyfer

³ I weld y diffiniadau penodol o'r mathau o ffermydd, gweler: Dosbarthiad Ffermydd yn y Deyrnas Unedig. Ar gael yma: http://farmbusinesssurvey.co.uk/DataBuilder/UK_Farm_Classification_2014_Final.pdf, cyrchwyd ar: 12/12/2021

Mathau o ddefnydd tir a ddefnyddir yn yr offeryn cyfrifo	Disgrifiad
	datblygiadau preswyl, neu'r categori tir agored – yr amgylchedd adeiledig ar gyfer pob math arall o ddatblygiad.
Coetir	Ardaloedd coediog awyr agored naturiol a lled-naturiol.
Prysgwydd	Ardal o brysgwydd awyr agored naturiol a lled-naturiol.
Dŵr	Ardaloedd o ddŵr wyneb sydd o dan ddŵr ar hyd y flwyddyn, gan gynnwys afonydd, pyllau, a llynnoedd.
Tir preswyl	Ardaloedd o dai a seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd preswyl, dreifiau, lleiniau glas, gerddi a seilwaith SuDS sy'n draenio datblygiad preswyl ⁴ .
Tir masnachol / diwydiannol	Ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer diwydiant. Mae'r rhain yn fusnesau sydd fel arfer yn gweithgynhyrchu, prosesu neu gynhyrchu cynhyrchion fel arall. Mae'r diffiniad o dir diwydiannol yn cynnwys ffatrïoedd a chyfleusterau storio yn ogystal â gweithrediadau mwyngloddio a morgludiant.
Tir agored – yr amgylchedd adeiledig	Ardaloedd o dir mewn ardaloedd trefol a ddefnyddir at ddibenion amrywiol, e.e. prif ffyrdd, cyfleusterau adeiledig fel ysgolion, canolfannau chwaraeon, ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer hamdden ac adloniant – fe allai hyn gynnwys tir agored, e.e. safleoedd carafannau, safleoedd gwersylla, meysydd chwaraeon, meysydd chwarae, a sgwariau cyhoeddus.
Tyfu bwyd cymunedol	Ardaloedd a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd lleol, fel rhandiroedd.

⁴ Gan ddilyn yr egwyddor ragofalus, mae SuDS wedi'u hymgorffori yn y math o dir Preswyl gan ei bod yn debygol y bydd ganddynt fewnbynnau maethynnau tebyg i'r tir preswyl amgylchynol.

4 DEFNYDDIO'R GYFRIFIANNELL

4.1 AWGRYMIADAU CYFFREDINOL

Mae'n rhaid i chi lenwi unrhyw gelloedd sy'n gofyn am fewnbynnu gwybodaeth i gynhyrchu cyllideb maethynnau. Mae rhai celloedd yn cael eu cyfrifo'n awtomatig. Bydd celloedd sy'n cael eu cyfrifo'n awtomatig yn dangos 'Amherthnasol' neu '0.00' nes i'r defnyddiwr fewnbynnu'r wybodaeth berthnasol.

Mae'r ddalen waith cyfarwyddiadau a'r testun yng nghelloedd A2 ac A3 ar bob dalen waith yn rhoi rhagor o gyfarwyddiadau ynglŷn â ble y mae angen i chi fewnbynnu gwybodaeth. Bydd rhai celloedd yn cynnwys gwerthoedd a lenwyd o flaen llaw, fel 'Defnydd o ddŵr'. Bydd y cyfarwyddiadau ar gyfer pob cell yn nodi os gellir defnyddio gwerth gwahanol. Pan fydd angen i'r defnyddiwr fewnbynnu gwybodaeth, bydd angen iddi fod wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael i ddangos bod y mewnbynnau'n gywir ar hyd oes y datblygiad (e.e. am byth⁵) ac yn briodol o ragofalus.

Mae'r gwerthoedd a lenwyd o flaen llaw yn y gyfrifiannell hon wedi cael eu hamlygu trwy waith ymchwil a modelu helaeth. Mae'r gwerthoedd wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn briodol o ragofalus i gyfrif am unrhyw ansicrwydd. Gellir defnyddio'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau hon fel tystiolaeth ategol ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Yn benodol, gellir defnyddio'r gyfrifiannell hon o fewn asesiad priodol i asesu effeithiau arwyddocaol tebygol cynnig ar gyfanrwydd y safle a'i amcanion cadwraeth.

Byddai'n annoeth iawn i olygu'r gwerthoedd yn yr offeryn hwn heb sylfaen dystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau unrhyw newidiadau. Os bydd unrhyw gelloedd a lenwyd o flaen llaw yn cael eu newid, chi sy'n gyfrifol am brofi bod y gwerthoedd hynny'n gywir ac y gellir eu hamddiffyn.

Cadwch gopi diodyn o'r gyfrifiannell nad yw'n cynnwys unrhyw fanylion am y datblygiad. Dewiswch yr opsiwn "Arbed fel" copi newydd bob tro y byddwch yn cyfrifo cyllideb ar gyfer datblygiad newydd rhag ofn y bydd unrhyw un o'r gwerthoedd diodyn yn y gyfrifiannell yn cael eu trosysgrifo ac y bydd eu hangen eto.

Mae'r gyfrifiannell wedi cael ei dylunio i ystyried Ffosfforws (P) a Nitrogen (N). Ar hyn o bryd, dim ond ffosfforws y mae'n rhaid ei asesu ar gyfer Cymru. Mae'r golofn nitrogen er mwyn cynwysoldeb yn unig ac i baratoi'r offeryn at y dyfodol rhag ofn y bydd unrhyw newidiadau rheoleiddiol yn ofynnol neu heriau.

4.2 MEWNBWN PENODOL I GAM

4.2.1 Cam 1: cyfrifo'r llwyth maethynnau ychwanegol o ddŵr gwastraff

ACA

Mae'n rhaid i chi ddewis yr ACA er mwyn i'r gyfrifiannell weithio'n iawn. Mae'n rhaid i chi ddewis un ACA o blith y naw ACA a fanylir yn **Adran 1.4**.

Chwilio am god post

Mae opsiwn i roi'r cod post ar gyfer safle'r datblygiad. Bydd rhoi cod post dilys sydd o fewn dalgylch yr ACA yn dewis yr ACLI yn awtomatig ac yn cynhyrchu'r glawiad ar gyfer y safle.

Sylwer: Nid yw'r wybodaeth a gynhyrchir o'r nodwedd chwilio am god post yn ddifiniol ac argymhellir ei bod yn cael ei defnyddio fel cymorth cychwynnol yn unig. Felly, chi sy'n gyfrifol am wirio bod y mewnbynnau a amlygir gan ddefnyddio'r offeryn chwilio am god post yn gywir.

⁵ Y diffiniad sefydledig cyfredol o 'am byth' at ddibenion niwtraliaeth maethynnau yw 80-125 o flynyddoedd.

Math o ddatblygiad

Mae'n rhaid i chi ddewis y math o ddatblygiad. Gallwch ddewis o blith y mathau canlynol o ddatblygiadau: preswyl, masnachol, hamdden, seilwaith gwasanaeth cyhoeddus neu dwristiaeth.

Gellir gweld y diffiniadau o'r categorïau datblygiadau hyn yn Nhabl 2 gan gyfeirio at 'Caniatâd cynllunio: dosbarthiadau defnydd'⁶. Mae'r mathau hyn o ddatblygiadau'n ymwneud yn benodol â newid defnydd tir yn barhaol o gymharu â defnyddio tir dros dro, fel ar gyfer gwyliau. Dylai safleoedd carafannau a safleoedd gwersylla gael eu cynnwys yn y categori Twristiaeth.

Tabl 2 Tabl sy'n dangos y diffiniadau o fathau o ddatblygiadau yn unol â'r dosbarthiadau defnydd caniatâd cynllunio⁶

Math o ddatblygiad	Disgrifiad
Preswyl	C2 Sefydliadau preswyl; C2A Sefydliad Preswyl Diogel; C3 Tai annedd, a ddefnyddir fel unig breswylfa neu brif breswylfa; C4 Tai amlfeddiannaeth; C5 Tai annedd, a ddefnyddir heblaw fel unig breswylfa neu brif breswylfa; C6 Tymor byr
Masnachol	A1 Siopau; A2 Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol; A3 Bwyd a diod; B1 Busnes; B2 Diwydiannol cyffredinol; B8 Storio neu ddosbarthu
Hamdden	D2 Ymgynnull a hamdden
Seilwaith gwasanaeth cyhoeddus	D1 Sefydliadau amhreswyl
Twristiaeth	C1 Gwestai (yn ychwanegol at safleoedd gwersylla a safleoedd carafannau gwyliau)

Bydd newid y datblygiad yn newid y swyddogaeth yng 'Ngham 1' y gyfrifiannell:

- Os dewisir 'Preswyl', mae'n rhaid i chi gadarnhau'r gyfradd feddiannaeth ddiofyn (pobl fesul annedd) neu roi cyfradd benodol os na ddefnyddir y cyfraddau diofyn.
- Os dewisir 'Masnachol', 'Hamdden', 'Seilwaith gwasanaeth cyhoeddus' neu 'Twristiaeth', mae'n rhaid i chi roi cyfanswm amcangyfrifedig y cwsmeriaid/defnyddwyr a chell i roi nifer y cyflogeion sy'n ofynnol ar gyfer defnyddiau masnachol.
- O ran cyflogeion a chwsmeriaid, mae'n rhaid i chi roi canran y bobl sy'n cymudo o'r tu allan i'r dalgylch. Mae canran y cwsmeriaid/defnyddwyr a chyflogeion sy'n cymudo o'r tu allan i'r dalgylch wedi'i gosod ar 100% yn ddiofyn heb unrhyw dystiolaeth i awgrymu fel arall. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd 100% o'r cwsmeriaid/defnyddwyr a chyflogeion yn cymudo neu'n teithio o'r tu allan i'r dalgylch. Os defnyddir gwerth penodol, chi fydd yn gyfrifol am nodi cyfradd addas a phriodol o ragofalus y bydd angen i'r ACLI gytuno arni. Fe allai fod yn bosibl amcangyfrif faint o bobl sy'n teithio o'r tu allan i'r dalgylch yn seiliedig ar leoliad y datblygiad a'r math o ddatblygiad, a dadansoddi data cyfrifiad fel 'Pellter teithio i'r gwaith yn ôl galwedigaeth'⁷ neu gynnal arolwg o gyfleusterau/diwydiannau tebyg.

⁶ Gweler Caniatâd cynllunio: dosbarthiadau defnydd (newid defnydd), sydd ar gael yma: <https://www.llyw.cymru/caniatad-cynllunio-dosbarthiadau-defnydd-newid-defnydd>

⁷ Gweler Pellter teithio i'r gwaith yn ôl galwedigaeth, sydd ar gael yma: <https://www.ons.gov.uk/datasets/RM016/editions/2021/versions/1>

Nifer yr anheddau/unedau ychwanegol

Bydd angen i chi fewnbynnu nifer yr anheddau ychwanegol a fydd o fewn y datblygiad ar adeg cwblhau'r datblygiad. Mae'r fethodoleg hon yn ymwneud ag unrhyw ddatblygiad preswyl, masnachol neu dwristiaeth sy'n cynyddu nifer yr arosiadau dros nos, neu sy'n achosi i bobl ddod o'r tu allan i'r dalgylchoedd hydrolegol i mewn i'r dalgylchoedd ACA hyn sydd â phroblemau maethynnau. Os bydd datblygiad yn cynnwys adeiladu anheddau/unedau ychwanegol yn lle'r rhai a oedd eisoes yn bodoli, dim ond yr anheddau/unedau ychwanegol a fewnbynnir yn y gyfrifiannell.

ACLI

Mae'n rhaid i chi ddewis yr ACLI sydd o fewn dalgylch yr ACA. Bydd dewis yr ACLI yn cynhyrchu'r gyfradd feddiannaeth ddiofyn ar gyfer y datblygiad hwnnw yn awtomatig. Os ydych wedi rhoi cod post dilys sydd o fewn dalgylch yr ACA, bydd yr ACLI yn cael ei lenwi'n awtomatig.

Cyfradd feddiannaeth gyfartalog

Mae'n rhaid rhoi'r gyfradd feddiannaeth gyfartalog ar gyfer datblygiadau preswyl yn unig. Dyma'r nifer gyfartalog o bobl fesul annedd/uned. Mae'r gwerth diofyn yn dibynnu ar yr ACLI y mae'r datblygiad wedi'i leoli ynddo. Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u seilio ar y gyfradd feddiannaeth gyfartalog ar gyfer awdurdodau lleol yn ôl cyfrifiad 2021. Bydd yr ACLI yn cael ei lenwi'n awtomatig os rhoddir cod post dilys sydd o fewn dalgylch yr ACA. Mae'n rhaid i chi gadarnhau'r gyfradd feddiannaeth trwy ddewis 'le' yn y gell o dan y gyfradd feddiannaeth. Fel arall, mae'n rhaid i chi ddewis 'Na' i roi cyfradd feddiannaeth benodol yn y gell briodol. Ni ddylid newid y gwerth hwn oni bai y gallwch ddarparu digon o dystiolaeth y bydd gan y datblygiad cyfradd feddiannaeth wahanol. Os oes cymysgedd o anheddau/unedau o wahanol feintiau a thystiolaeth sy'n profi y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol y bydd ganddynt gyfraddau meddiannaeth gwahanol am byth, gallwch fewnbynnu cyfradd feddiannaeth wahanol. Bydd angen i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r gyfradd feddiannaeth ddiwygiedig hon gael ei chyflwyno hefyd fel dystiolaeth ategol i'r allbwn cyllideb maethynnau.

Defnydd o ddŵr fesul unigolyn

Dyma faint o ddŵr yr amcangyfrifir y bydd pob unigolyn yn ei ddefnyddio ar gyfartaledd.

Mae hyn wedi'i osod i werth diofyn o 120 o litrau/unigolyn/dydd, sydd 10 litr yn uwch na'r safon Rheoliadau Adeiladu⁸ a osodwyd gan Weinidogion Cymru, sef 110 o litrau/unigolyn/dydd o ddŵr dihalog pan fydd annedd/uned yn cael ei chodi. Mae'r safon wedi'i seilio ar 'ymagwedd ffitiadau' lle y cyflawnir effeithlonrwydd dŵr trwy ffitiadau effeithlonrwydd dŵr. Mae'r 10 litr/unigolyn/dydd ychwanegol yn ymagwedd ragofalus i ystyried amrywiadau i'r defnydd o ddŵr ac unrhyw newidiadau posibl yn y dyfodol i'r ffitiadau dŵr am byth.

Os bydd annedd/uned yn cael ei ffurfio yn sgil newid sylweddol i ddefnydd o adeilad, dylid newid y gwerth hwn i 135 o litrau/unigolyn/dydd. Unwaith eto, mae'r gwerth hwn 10 litr/unigolyn/dydd yn fwy na safon y Rheoliadau Adeiladu, sef 125 o litrau/unigolyn/dydd er mwyn bod yn rhagofalus am yr un rhesymau ag a nodir uchod.

Mae'r holl werthoedd defnydd o ddŵr wedi cael eu gosod yn ddiofyn i 120 o litrau/unigolyn/dydd heb unrhyw dystiolaeth i awgrymu fel arall. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd unigolion yn defnyddio cymaint o ddŵr y dydd mewn gweithle ag y byddant yn ei ddefnyddio gartref. Mae'n bosibl gosod unrhyw un o'r gwerthoedd i sero os nad ydynt yn berthnasol, er efallai y bydd angen i'r ACLI gael dystiolaeth sy'n dangos hyn.

Mae'r ffigur diofyn ar gyfer defnydd o ddŵr yn dod gyda'r amod bod CNC yn defnyddio ffigur defnydd o ddŵr 150 o litrau/unigolyn/dydd Llifoedd a Llwythi Prydeinig⁹ wrth asesu unrhyw Drwyddedau neu Esemptiadau Amgylcheddol. Mae'n bosibl y gallai hyn effeithio ar roi unrhyw drwyddedau neu fodloni'r egwyddorion niwtraliaeth maethynnau. Bydd angen i ymgeiswyr fodloni'r amodau a'r ffigurau a amlinellir o dan Drwydded Amgylcheddol.

⁸ Gweler: Rheoliadau Adeiladu: Dogfennau Cymeradwy G, sydd ar gael yma: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-05/building-regulations-guidance-part-g-sanitation-hot-water-safety-and-water-efficiency.pdf>

⁹ Gweler: Llifoedd a Llwythi Prydeinig – 4, sydd ar gael yma: https://www.theseptictankstore.co.uk/wp-content/uploads/British_Water_flows_and_loads.pdf

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (WwTW), Tanciau Septig (ST) a Chyfleusterau Parod i Drin Carthion (PTP)

Bydd angen i chi ddewis y WwTW a fydd yn derbyn y dŵr gwastraff o'r datblygiad. Os bydd angen, gellir cael y wybodaeth hon gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth ar gyfer y safle datblygu. Os nad yw'n ymarferol cysylltu â phrif garthffos ac mae ST neu PTP yn cael ei ddefnyddio, dewiswch yr opsiwn hwn. Sylwch, os yw'r cyfanswm ffosforws (TP) a'r crynodiadau elifion terfynol (mewn mg/l) yn cael eu pennu gan y gweithgynhyrchwr, dewiswch 'Tanc Septig a ddiffinnir gan y defnyddiwr' neu 'Cyfleuster Parod i Drin Carthion a ddiffinnir gan y defnyddiwr' a rhowch y gwerth a bennir yn y gell pan ofynnir i chi.

Os nad yw'r WwTW sy'n derbyn wedi'i restru yn y gwymplen, gwiriwch fod y wybodaeth hon yn gywir trwy gysylltu â'r ymgwymerwr carthffosiaeth. Pan gadarnheir bod eich datblygiad yn cysylltu â WwTW sy'n gollwng i un o'r safleoedd Gwarchodedig a restrir yn **Adran 1.4** ac nad yw wedi'i ddarparu yn rhestr y gwymplen, rhowch wybod i'ch ACLI.

Sylwer: Mae'r terfynau a ganiateir mewn WwTW ar gyfer crynodiadau TP ac N elifion terfynol yn gywir ar yr adeg cyhoeddi, ond fe allent newid yn y dyfodol. Os bydd angen, bydd y gwerthoedd hyn yn cael eu diweddarau yn unol â hynny yn ddiweddarach.

Os yw PTP neu ST yn cael ei ddefnyddio ac nid ydych yn siŵr a fydd yn draenio i safle Gwarchodedig, gwiriwch a yw'r datblygiad yn nalgylch yr ACA trwy ddilyn y cyfarwyddiadau yn Atodiad 1. Os nad oes gennych werth TP a ddarparwyd gan y gweithgynhyrchwr, dewiswch yr opsiwn 'Tanc Septig diofyn' neu 'Cyfleuster Parod i Drin Carthion diofyn' a bydd gwerth yn cael ei ddarparu'n awtomatig.

Sylwer:

Os yw ST neu PTP yn cael ei ddefnyddio, bydd angen trefn cynnal a chadw gynhwysfawr yn rhan o'r broses ymgeisio. Os oes gan eich ST neu PTP alluoedd stripio, mae'n bosibl y bydd hyn yn cael ei wneud trwy ddull dosio cemegol. Os oes angen dosio cemegol, mae'n rhaid i gynllun rheoli cadarn sy'n manylu ar sut mae cemegion yn cael eu storio, y cyfraddau gwanhau, amlderau dosio, sicrwydd na fydd unrhyw gemegion a ddefnyddir yn effeithio ar yr amgylchedd ac ati, gyd-fynd â'r cais cynllunio. Dylai'r cynllun rheoli hefyd ystyried system rybuddio ar gyfer gollyngiadau a methiannau (h.y. os torrir y terfyn trin ardystiedig, bydd angen cymryd camau fel amnewid cyfryngau dosio). Mae'n bosibl na fydd PTP gyda dosio cemegol yn briodol ym mhob achos. Yn ei gyngor i awdurdodau cynllunio, mae CNC yn amlinellu'r risgiau sy'n gysylltiedig â dosio cemegol mewn systemau draenio preifat bach:

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynqor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws](#)

4.2.2 Cam 2: cyfrifo'r llwyth maethynnau o orchuddion tir sydd eisoes yn bodoli

Yn yr adran hon, mae'n rhaid i chi ddewis rhai mewnbynnau ynglŷn â nodweddion ffisegol y safle. Yn y tabl cyntaf, mae'n rhaid i chi ddewis y math o ddraenio pridd a'r gwerth glawiad, fel y disgrifir yn **Adran 3.1**. Os oeddech wedi rhoi cod post dilys o fewn dalgylch yr ACA, bydd y gwerth glawiad yn cael ei lenwi'n awtomatig. Mae'n rhaid i chi gadarnhau bod hyn yn gywir trwy ddewis 'le' yn y gell briodol. Fel arall, mae'n rhaid i chi ddewis 'Na' i ddewis gwerth glawiad gwahanol.

Yng ngholofn 'Gorchudd tir' yr ail dabl yng Ngham 2 y gyfrifiannell, mae pob cell yn cynnwys rhestr gwymplen o 18 o fathau o orchuddion tir. Mae'r rhestr hon yn cynnwys deg math o orchudd tir amaethyddol i ddewis o'u plith ac wyth math o orchudd tir nad ydynt yn amaethyddol a allai fod yn bresennol o fewn ffin llinell goch y datblygiad. Mae'n rhaid i chi bennu'r gorchuddion tir sy'n ffurfio'r safle, yn ogystal â maint arwynebol (mewn hectarau) pob gorchudd tir, cyn cwblhau'r gyfrifiannell hon. Os oes gorchudd tir o fewn ardal y datblygiad nad yw'n ymddangos yn y rhestr, dewiswch y math tebycaf o ddefnydd tir o'r rhai sydd ar gael. Er enghraifft, os cedwir dau hectar o dir amaethyddol ar gyfer defnydd amaethyddol o fewn safle datblygu deg hectar, ni ddylid cynnwys yr ardal dau hectar yn y cyfrifiadau.

Mae **Tabl 1** yn **Adran 3.3** yn disgrifio'r gwahanol fathau o ddefnydd tir sydd ar gael yn yr offeryn cyfrifo.

4.2.3 Cam 3: cyfrifo'r llwyth maethynnau o orchuddion tir newydd

Yn yr adran hon, bydd angen i chi ddewis y math o orchudd tir ac arwynebedd y gorchudd tir a fydd yn bresennol ar y safle datblygu ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau.

Mae'r golofn 'Gorchudd tir' yn y tabl yng Ngham 3 y gyfrifiannell yn cynnwys yr un rhestr gwymplen o fathau o ddefnydd tir ag yng Ngham 2. Dylech wirio pa orchuddion tir sy'n bresennol o fewn ffin llinell goch y datblygiad, yn ogystal â'r maint arwynebol (mewn hectarau) cyn cwblhau'r rhan hon o'r offeryn. Os oes gorchudd tir o fewn ardal y datblygiad nad yw'n ymddangos yn y rhestr (gweler **Tabl 1** yn **Adran 3.3** am ddisgrifiadau o orchuddion tir), dewiswch y math tebycaf o ddefnydd tir.

4.2.4 Cam 3S: cyfrifo'r llwyth maethynnau a dynnir ymaith trwy SuDS

Mae'r adran hon yn ddewisol. Bydd angen darparu llawer o dystiolaeth ochr yn ochr ag allbwn y gyfrifiannell hon.

Nid oes angen i chi fewnbynnu unrhyw wybodaeth os nad yw SuDS yn berthnasol i'r datblygiad. Yn yr adran hon, gallwch fewnbynnu gwybodaeth am y nodweddion SuDS a ddefnyddir i gyfrifo faint o faethynnau a dynnir ymaith trwy drin dŵr ffo wyneb trwy SuDS. Mae'n rhaid i'r adran hon gael ei chwblhau dim ond os yw SuDS yn cael eu gweithredu yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3) a'u bod yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol.

Mae'n rhaid i unrhyw SuDS sy'n cael eu gweithredu yn ychwanegol at y cynlluniau safle at ddibenion lliniaru beidio â chael eu hystyried yn y cyfrifiad cyllideb maethynnau ar gyfer y safle. Yn yr achos hwn, argymhellir yn lle hynny bod ail gyfrifiad yn cael ei lenwi – mae dyfarniad Pobl dros Wynt yn golygu nad oes modd cymhwyso mesurau lliniaru ar y cam sgrinio mwyach.

Ni ellir ystyried SuDS ym Mharth Llifogydd 3 (ardaloedd sydd mewn perygl o orlifo'n aml) fel y dangosir ar Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru / Map llifogydd ar gyfer cynllunio).

Os defnyddir rhan SuDS y gyfrifiannell, pan gyflwynir allbwn y gyfrifiannell i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, bydd angen i chi hefyd gyflwyno'r cyfrifiadau a chyfiawnhad o'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i gwblhau'r rhan hon o'r gyfrifiannell. Yn ogystal, bydd angen i chi ddarparu:

- Manylion dylunio pob elfen o'r dilyniant rheoli SuDS
- Tystiolaeth i gyfiawnhau'r gyfradd tynnu maethynnau ymaith a ddefnyddiwyd
- Cynllun cynnal a chadw (er enghraifft, tynnu gwaddodion ymaith, rheoli llystyfiant, a manylion ynghylch sut byddai'r gwastraff sy'n codi'n cael ei waredu er mwyn cynnal egwyddorion niwtraliaeth maethynnau a chydymffurfio â'r caniatadau amgylcheddol cywir)

Cyfraddau tynnu ymaith

Bydd dyfais neu ddilyniant rheoli SuDS yn trin y dŵr sy'n mynd i mewn i'r SuDS yn unig ac ni fydd yn trin pob llif, gan gynnwys digwyddiadau storm difrifol. Dylai'r llif a driniwyd ar gyfer y ddyfais SuDS gyntaf gael ei bennu yn seiliedig ar y dalgylch a'r llifoedd/llwythi sy'n draenio i'r ddyfais. Mae'n rhaid tynnu cyfran y llif/llwyth sy'n osgoi'r ddyfais SuDS ac nad yw'n mynd i mewn iddi. Dylai gostyngiadau o'r ddyfais SuDS trwy ymdreiddio a llifoedd a gludir gael eu cymhwyso i'r llif/llwyth hwn a driniwyd yn unig.

Dylai'r llif a driniwyd ar gyfer yr ail neu'r drydedd ddyfais gael ei bennu yn seiliedig ar y llif/llwyth y modelwyd ei fod yn gadael y ddyfais SuDS flaenorol. Dylai'r dilyniant rheoli SuDS gael ei ddylunio i reoli ffosfforws gronynnol a ffosfforws toddedig.

Mae'n hanfodol gwirio y bydd yr ymlifiad yn cynnwys cyfanswm ffosfforws digon uchel i ganiatáu i'r driniaeth fod yn effeithiol. Os yw'r cyfanswm ffosfforws yn yr ymlifiad yn rhy isel, mae'n bosibl na fodlonir y lefel driniaeth ddisgwyliedig.

Darganfyddwch sut i gyfrifo'r cyfraddau tynnu ymaith yn y dogfennau canllaw canlynol a gyhoeddwyd gan [Gymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu \(CIRIA\)](https://www.ciria.org/CIRIA/Books/Bookshop.aspx?hkey=5d0b1bf4-bcee-4410-ade0-2dfb2a319cc2):

<https://www.ciria.org/CIRIA/Books/Bookshop.aspx?hkey=5d0b1bf4-bcee-4410-ade0-2dfb2a319cc2>

- defnyddio SuDS i leihau ffosfforws mewn dŵr wyneb ffo (C808)
- defnyddio SuDS i leihau nitrogen mewn dŵr wyneb ffo (C815)

Mae canllawiau CIRIA yn cynnwys ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddylunio dilyniant rheoli SuDS ar gyfer tynnu ffosfforws ymaith, ni waeth am yr elfennau SuDS a ddefnyddir. Bydd angen i'r holl fesurau fodloni'r meini prawf a fanylir yn Nhabl 2.1 canllawiau CIRIA.

Cwblhau Adran 3S y gyfrifiannell

Bydd y math(au) o orchudd tir a'r arwynebedd(au) gorchudd tir sy'n bresennol ar y safle newydd yn cael eu llenwi'n awtomatig o Gam 3.

Bydd angen i chi:

- fewnbynnu ardal y dalgylch sy'n draenio i'r SuDS fel cyfran o'r gorchuddion tir newydd
- dewis y nodweddion SuDS a ddefnyddir
- mewnbynnu'r cyfraddau tynnu maethynnau ymaith fel canran

Argymhellir bod arwynebedd y nodweddion SuDS yn cael ei gynnwys o fewn arwynebedd y gorchudd tir maen nhw'n ei ddraenio. Os bydd angen, gallwch rannu'r gorchudd tir yng Ngham 3 i ddangos nifer o ffurfweddiadau draenio.

Gallwch ddewis nodwedd SuDS o restr o 23 o opsiynau. Os yw dilyniant rheoli SuDS sy'n cynnwys sawl nodwedd SuDS yn cael ei weithredu, dylech ddewis yr opsiwn mwyaf priodol o ddechrau'r rhestr. Fel arall, dylech ddewis y nodwedd SuDS unigol sy'n cael ei defnyddio. Os na ellir dod o hyd i'r nodwedd SuDS briodol yn y rhestr, dewiswch y dewis amgen mwyaf perthnasol.

Dylai'r cyfraddau tynnu maethynnau ymaith gael eu mewnbynnu fel canran rhif cyfan. Mae'n rhaid i chi allu darparu tystiolaeth o'r cyfraddau tynnu ymaith a fewnbynnwyd gennych. Mae perfformiad SuDS yn amrywiol iawn ac yn dibynnu ar y dyluniad a nodweddion ffisegol y safle. Fel y cyfryw, chi sy'n gyfrifol am ddangos bod y cyfraddau tynnu maethynnau ymaith wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn benodol i'r ffurfweddiad SuDS ar eu safle. Mae'n debygol y bydd hyn yn gofyn am gyflwyno asesiad draenio a dyluniad manwl.

Mae faint o faethynnau a dynnir ymaith trwy SuDS yn cael ei gyfrifo'n awtomatig gan ddefnyddio'r gorchuddion tir a'r llwythi cysylltiedig o Gam 3, yr arwynebedd draenio, a'r cyfraddau tynnu maethynnau ymaith. Mae cyfanswm y llwyth a dynnir ymaith trwy SuDS yn cael ei ymgorffori yn y cyfrifiad cyllideb maethynnau terfynol. Diben dewis y math o nodwedd SuDS a ddefnyddir yw sicrhau bod y gyfrifiannell cyllideb maethynnau yn cyfateb i'r dyluniad SuDS a fanylir yn y cais cynllunio.

